

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Children and Young People Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Vaughan Gething AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

3 Mai 2013

Annwyl Vaughan

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Yn ychwanegol at lythyr Christine Chapman ar 28 Chwefror at Mark Drakeford, erbyn hyn mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi gorffen ei waith craffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o ran y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, ac mae'n dda gen i amgáu adroddiad ar ein canfyddiadau.

O gofio bod nifer arwyddocaol o ymatebion wedi cyfeirio at effaith y Bil ar blant a phobl ifanc, gobeithio y bydd y materion hyn yn rhan o ystyriaethau'ch Pwyllgor chithau ac y bydd ein hadroddiad ninnau o gymorth ichi yn hyn o beth.

Mae'n hadroddiad ni, sydd wedi'i amgáu, yn nodi amryw o faterion sydd yn ein barn ni yn haeddu rhagor o waith craffu a hoffem dynnu'ch sylw yn benodol at y canlynol:

Materion hollgyffredinol

Ydy'r Bil yn cyflawni'r nodau sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc?

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen rhai newidiadau penodol i sicrhau bod y Bil yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

E-bost /Email: CYPCommittee@wales.gov.uk

Mae angen newidiadau hefyd i sicrhau na fydd rhoi'r Bil ar waith yn glastwreiddio'r diogelwch sy'n cael ei gynnig i blant yn y ddarpariaeth sydd eisoes yn bod. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein barn am y newidiadau hyn yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Dileu amddiffyniad cosb resymol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth eang o asiantaethau a oedd yn dadlau o blaid cynnwys darpariaeth yn y Bil i ddileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'. Mynegodd rhai Aelodau bryder nad ymgynghorwyd ynghylch cynnwys hyn neu beidio yn y Bil penodol hwn, a hynny am nad oedd yn adran yn y Bil fel y cafodd ei ddrafftio. Cadarnhaodd dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog nad yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i'r perwyl hwn yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'r Pwyllgor am dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y dystiolaeth a gawsom ninnau yn hyn o beth.

Mynediad i Wasanaethau

Gwasanaethau Ataliol

Mae angen rhagor o fanylion am y mathau o wasanaethau a allai gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau ataliol cyn i'r Bil gyrraedd cyfnodau olaf y broses ddeddfu.

Asesu

Nid yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn ddigon clir o ran sut mae'r asesiadau ynglŷn â gofal a chymorth sy'n angenrheidiol o dan Ran 3 o'r Bil yn cyd-fynd â phrosesau asesu eraill fel y rhai ynglŷn ag iechyd meddwl ac addysg.

Cymhwystra

Efallai nad yw'n bosibl nac yn ddymunol rhoi holl fanylion y meini prawf cenedlaethol ynghylch cymhwystra ar wyneb y Bil, ond mae mater cymhwystra yn allweddol o ran a fydd y Bil yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud rhagor o waith craffu manwl ar y mater hwn yn sgil datganiad gan y Dirprwy Weinidog yn hyn o beth.

Diwallu Anghenion

Rydyn ni o'r farn bod diddymu adran 17 a rhan 3 o *Ddeddf Plant 1989* yn fater arwyddocaol ac yn gofyn pam nad yw'r eglurder hwn wedi'i roi yn gynt, o gofio ei fod mor arwyddocaol. Hoffem annog y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi sylw penodol i'r mater hwn.

Codi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed

Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r rhesymeg a arweiniodd at greu pwerau i godi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed yn berthnasol mwyach. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn fodlon ystyried dileu'r pŵer. Byddem yn croesawu hynny ac rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a ddylai'r pŵer hwn gael ei ddileu o'r Bil.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a oes angen i gyfrifoldebau partneriaid heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn fwy pendant ar wyneb y Bil.

Llais a Rheolaeth y Defnyddwyr

Eiriolaeth

Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a ddylai'r gofyniad bod rhaid darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol gael ei fynegi'n bendant ar wyneb y Bil ac mae'n croesawu tystiolaeth y Dirprwy Weinidog ei bod yn ystyried gwelliant gan y Llywodraeth yn hyn o beth.

Diogelu Plant

Byrddau Diogelu Lleol

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y fframwaith statudol i blant yn wahanol i'r fframwaith ar gyfer diogelu oedolion ac mae am dynnu sylw'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol at y pryderon a glywsom ynghylch pwerau i uno byrddau lleol.

Gwasanaethau i Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya

A yw Rhan 6 o'r Bil yn ddiweddariad priodol ar y dyletswyddau presennol ac a yw'n cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol yn briodol

Cydgrynhoad rhannol yn unig ar y ddeddfwriaeth bresennol yw Rhan 6 ac rydyn ni'n pryderu nad yw'r Bil yn egluro'r ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya.

Maethu i Fabwysiadu

Yng ngoleuni gwaith craffu helaeth y Pwyllgor hwn ar faterion o'r fath yn ystod ein hymchwiliad ar wasanaethau mabwysiadu, rydyn ni'n cefnogi'n gryf yr angen i ddiwygio'r Bil yn hyn o beth ac yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i adolygu'r darpariaethau presennol yn y Bil yn hyn o beth. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a nodi hefyd dystiolaeth a chasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor

Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012 ynghylch yr angen i sicrhau sefydlogrwydd i blant yn gynt.

Mabwysiadu

Trefniadau Gweithio ar y Cyd

Mae angen i adran 151 o'r Bil fynd ymhellach na'r drafft presennol i ddarparu'r dulliau diogelu angenrheidiol rhag ofn na fyddai'r model cyflwyno gwasanaethau arfaethedig i'r gwasanaethau mabwysiadu cenedlaethol yn cyflawni'r 'newid sylweddol' y mae'n Pwyllgor ni wedi galw amdano o'r blaen. Seilir y sylwadau hyn ar ein gwaith craffu helaeth yn ddiweddar ar wasanaethau mabwysiadu ac ar ein gwaith craffu ar *Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* a fu'n fodd inni ystyried datblygiadau mwy diweddar, Mae angen hefyd i adran 151 o'r Bil gyfeirio'n bendant at y sector gwirfoddol. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a nodi hefyd dystiolaeth a chasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

Cymorth ar ôl Mabwysiadu

Ar sail y dystiolaeth helaeth a glywsom yn ystod yr ymchwiliad ar wasanaethau mabwysiadu, mae'r Pwyllgor yn gryf o'r farn y dylai'r ddyletswydd i ddarparu cymorth ar ôl mabwysiadu gael ei chynnwys yn y Bil. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gostio unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn hyn o beth yn ddigonol. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a'r dystiolaeth ynghylch cymorth ar ôl mabwysiadu yng nghasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

Plant Anabl

Statws plant anabl yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989

Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n pryderon o ran sut mae'r Bil yn darparu ar gyfer diffiniad o blant anabl a hefyd yr effaith bosibl ar blant anabl pe bai adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn cael ei diddymu. Rydyn ni hefyd yn nodi ei bod yn agored i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, dynnu pobl benodol o'r diffiniad o "anabledd" a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddem yn croesawu rhagor o waith craffu ar y materion pwysig hyn.

Cyllid

Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n pryderon ynghylch a all y Bil fod yn niwtral o ran costau neu beidio. Rydyn ni'n croesawu rhagor o waith craffu ganddyn nhw ar y mater hwn ac yn enwedig

felly y modd y mae'n effeithio ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Is-ddeddfwriaeth

Rydyn ni'n nodi y bydd materion sy'n ymwneud â phwerau is-ddeddfwriaeth yn cael eu hamlygu yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y Bil. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'r pryder a godwyd gan rai o'r elusennau i blant fod y rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth yn dod o dan y weithdrefn negyddol ac ystyried a fyddai'n fwy priodol defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol neu, mewn rhai achosion, y weithdrefn uwchgadarnhaol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Ann Jones". The script is cursive and fluid, with the first letter 'A' being particularly large and prominent.

Ann Jones
Cadeirydd

Gwybodaeth gefndir

1. Ar 28 Ionawr 2013, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC (“y Dirprwy Weinidog”), Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)¹ (“y Bil”) a gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Lesley Griffiths AC, ddatganiad yn y cyfarfod llawn drannoeth.²
2. Yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2013, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y byddai'n cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, ond gofynnodd i Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw gydweithio â Chadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'i aelodau'n cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith craffu ar y Bil.
3. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mark Drakeford AC, at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 4 Chwefror 2013 i'w wahodd i graffu ar y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â mabwysiadu ac a phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya ac adrodd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ganfyddiadau.
4. Mewn cyfarfod preifat ar 21 Chwefror, cytunodd aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i graffu ar y Bil fel y mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc a rhoi gwybodaeth erbyn 2 Mai 2013 ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
5. Cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth ddydd Mercher 17 Ebrill a dydd Iau 25 Ebrill, ac mae manylion y rhai a roddodd dystiolaeth ar lafar i'w gweld yn Atodiad A.
6. Ers i'r Pwyllgor ddechrau craffu ar y Bil, mae Cadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi newid. Cymerodd Vaughan Gething AC le Mark Drakeford AC yn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Ebrill a chymerodd Ann Jones AC le Christine Chapman AC yn Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 24 Ebrill 2013.

¹ Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sydd ar gael yn: <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Iid=5664>

² Cofnod y Trafodion, 29 Ionawr 2013, sydd ar gael yn: http://assemblywales.org/docs/Cofnod_y_Trafodion_XML/130129_Plenary_Bilingual.xml#58272

7. Mae'r materion sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn yn sôn am rai o'r prif themâu a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ynghylch effaith Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar blant a phobl ifanc. Yn ychwanegol at y materion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad byr hwn, cafodd ystod eang o bwyntiau eu codi nad oedd yna ddigon o amser i'r Pwyllgor hwn wneud y gwaith craffu angenrheidiol yn eu cylch. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad B i'r adroddiad ac rydyn ni'n rhag-weld y bydd y rhain o ddiddordeb pellach i'n cydweithwyr ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddyn nhw graffu ar y Bil.

Materion hollgyffredinol

Ydy'r Bil yn cyflawni'r nodau sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc?

8. Clywodd y Pwyllgor bryderon am egwyddor ac am oblygiadau ymarferol nod y Bil sef integreiddio a chysoni trefniadau er mwyn creu set gyffredin o brosesau i bobl, yn hytrach na chael trefniadau ar wahân i blant ac oedolion.

9. Er bod y Pwyllgor yn nodi barn Comisiynydd Plant Cymru nad yw'r rheswm sydd wedi'i ddatgan dros y newid er mwyn cysoni gwasanaethau yn cyfateb yn union i egwyddor y lles pennaf fel y mae i'w gweld yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn), at ei gilydd nid yw'n glir o'r dystiolaeth pa newidiadau o sylwedd yr hoffai'r Comisiynydd eu gweld yn y Bil yn hyn o beth. Mae Barnardo's Cymru yn gefnogol yn fras i nodau cyffredinol y Bil o ddwyn ynghyd yr holl ddyletswyddau a swyddogaethau sydd gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau i bobl mewn angen. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) bod yna gonsensws cryf ar draws asiantaethau sy'n cynrychioli plant fod y ffocws ar blant wedi cael ei golli mewn rhai ffyrdd, er bod y Gymdeithas yn cymeradwyo'r Bil.

10. Mae Plant yng Nghymru'n dweud y byddai'n well ganddyn nhw weld Deddf Plant wedi'i chydgrynhai i Gymru gan ddweud y byddai hynny gryn dipyn yn well fel ffordd ymlaen hyd yn oed pe na bai'n bosibl yn ystod y Cynulliad hwn. Er bod tystiolaeth o bryder ynghylch goblygiadau cysoni trefniadau i oedolion a threfniadau i blant, o'u holi, ni wnaeth NSPCC Cymru na'r Comisiynydd Plant achos clir dros Fil ar wahân ar gyfer plant. Mewn ymateb i dystiolaeth y Comisiynydd, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor gan ddweud mai hawliau unigolion ac yn enwedig hawliau plant oedd wrth galon y ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad bod angen rhai newidiadau penodol er mwyn sicrhau bod y Bil yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru. Mae angen newidiadau hefyd i sicrhau na fydd rhoi'r Bil ar waith yn glastwreiddio'r diogelwch sy'n cael ei gynnig i blant yn y ddarpariaeth sydd eisoes yn bod. Hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein barn am y newidiadau hyn yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Oes yna 'sylw priodol' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

11. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth iddyn nhw ddatblygu'r holl ddeddfwriaeth a pholisi, a mynegodd sawl ymateb i'r ymgynghoriad bryder a oes yna dystiolaeth o sylw priodol o'r fath yn y Bil. Mae Barnardo's Cymru'n awgrymu ei bod yn ymddangos bod dadansoddiad ar sail sylw priodol wedi'i wneud er mwyn ategu'r Bil yn hytrach nag i'w asesu o'i gymharu â'r Confensiwn. Mae'r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at sut mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth bresennol gan nodi hyn: 'many of these changes appear to have been made in order to align arrangements for children with those introduced for adults through the Bill, rather than on the basis of decisions related to promoting right-based policy for children in Wales [...]'.

12. Roedd y Pwyllgor yn amau a oedd yr wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigonol, gan nodi bod pethau amlwg wedi'u hepgor o blith erthyglau'r Confensiwn sydd wedi'u rhestru yn y Memorandwm, er enghraifft erthygl 3 (egwyddor y lles pennaf) ac erthygl 20 (plant sy'n derbyn gofal). Mae erthygl 21 o'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i Bartïon Gwladol sy'n caniatáu system fabwysiadu sicrhau mai lles pennaf y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf. Mae'r Pwyllgor yn gofyn pam nad oes cyfeiriad at yr erthygl hon yn yr asesiad o hawliau'r plentyn a geir yn y Memorandwm. Clywodd ymchwiliad y Pwyllgor i wasanaethau mabwysiadu nad oedd yr awdurdodau lleol bob amser yn gweithredu er lles pennaf y plant o ran gwasanaethau mabwysiadu, er enghraifft wrth geisio cadw mabwysiadwyr a gymeradwywyd i blant o'u hawdurdod eu hunain. Ar gais y Pwyllgor, rhoddodd y Dirprwy Weinidog gopi o'r ddogfen lawn ar asesiadau 'sylw priodol'. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y cyfle i weld y ddogfen hon wedi'i helpu yn ei waith craffu gan argymhell y dylai'r 'asesiad sylw priodol' llawn gael ei ddarparu i'r Pwyllgorau i'w helpu yn y broses graffu wrth i Filiau gael eu cyflwyno yn y dyfodol. Roedd Aelodau'n amau a oedd y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn galluogi plant a phobl ifanc i gadw llygad yn ddigonol i weld a fydd rhywbeth yn effeithio ar eu hawliau.

Dileu'r amddiffyniad cosb resymol

13. Mewn ymateb i alwad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am dystiolaeth ynghylch y Bil, mae'r mater unigol mwyaf cyson sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc wedi'i amlygu gan yr ymgynghoreion hynny sydd wedi galw am i'r Bil ddiwygio [adran 58](#) o Ddeddf Plant 2004 sy'n ymwneud â 'chosb resymol'. O'r 84 o ymatebion a ddaeth i law, cyfeiriodd 43 at blant a galwodd 19 o'r rhain am gynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil. Yn eu

tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae 'Sdim Curo Plant! Cymru yn dweud nad yw'r Bil yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan, gan nad yw'n cynnwys darpariaeth o'r fath.

14. Maen nhw hefyd yn rhoi dadansoddiad manwl y maen nhw'n awgrymu ei fod yn dangos bod methiant y Bil i gynnwys darpariaethau ynghylch cosb gorfforol yn tanseilio ac yn gwrth-ddweud amcanion cyffredinol y Bil. Mae tystiolaeth ysgrifenedig amryw o sefydliadau hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod sawl un o gyrff y Cenhedloedd Unedig ar hawliau dynol wedi argymhell yn benodol y dylai'r Deyrnas Unedig wahardd pob cosb gorfforol i blant yn y gyfraith. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd CAU! Cymru na fydd addysg a strategaethau i helpu rhieni ar eu pen eu hunain yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol, gan ddweud bod angen newid y gyfraith er mwyn i rieni a gweithwyr proffesiynol wybod yn union ble mae'r llinell wedi'i thynnu a bod angen i'r Llywodraeth arwain y farn gyhoeddus ar faterion anodd fel hyn. O'i holi, cytunodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol fod gweithio i sicrhau bod cosb gorfforol i blant a phobl ifanc yn annerbyniol ym mhob sefyllfa yn un o'r blaenoriaethau sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru, gan amlinellu ei bod yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ddatblygu polisïau rhianta ac na fydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn ystod y Cynulliad hwn.

Gohirio'r Bil?

15. Mae'r Pwyllgor wedi cael cyngor bod y dadleuon cyfreithiol o blaid cynhwysedd deddfwriaethol ychydig yn gryfach na'r dadleuon yn erbyn, ond y byddai unrhyw ymgais i ddeddfu yn y maes hwn yn arwain at her gan Dwrnai Cyffredinol Cymru a Lloegr. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog gyngor y mae hithau wedi'i gael y gallai gwelliant ynglŷn â chosb gorfforol gael ei herio a mynegodd ei phryderon y byddai hynny'n peri oedi cyn symud y Bil yn ei flaen. Gofynnodd Aled Roberts AC i'r Dirprwy Weinidog ddweud a allai'r ddarpariaeth sy'n peri anghydfod gael ei thynnu er mwyn atal oedi o'r fath.

16. I grynhoi, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth eang o asiantaethau a oedd yn dadlau o blaid cynnwys darpariaeth yn y Bil i ddileu'r amddiffyniad 'cosb resymol'. Mynegodd rhai Aelodau bryder nad ymgynghorwyd ynghylch cynnwys hyn neu beidio yn y Bil penodol hwn, a hynny am nad oedd yn adran yn y Bil fel y cafodd ei ddrafftio. Cadarnhaodd tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog nad yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i'r perwyl hwn yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'r Pwyllgor am dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y dystiolaeth a gawsom ninnau yn hyn o beth.

Mynediad i wasanaethau

Gwasanaethau ataliol

17. Mae Gweithredu dros Blant yn 'extremely supportive of the legal duties which support local authorities to rebalance social services to provide early help for emerging needs and focus on prevention, reduction and mitigation'. Mae NSPCC Cymru'n dweud y gallai fod yn afrealistig ceisio cyflwyno gwasanaethau ataliol i bawb. Maen nhw hefyd yn mynegi 'real concern that the skills of social workers and others in social services departments will be spread too thinly as there is a shift towards early intervention and preventative services, whilst continuing to have to address existing acute/complex need'. Dywedodd Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru (BASW) wrthon ni y bydd yr awdurdodau lleol yn cael eu galluogi i drefnu darparu gwasanaethau gan obeithio y byddai darpariaeth o'r fath, dros gyfnod o amser, yn rhyddhau adnoddau'r timau amddiffyn plant er mwyn ymwneud yn fwy ystyrlon â theuluoedd. Mae Gweithredu dros Blant yn croesawu'r ffocws ar waith atal ac ymyrryd yn gynnar ond yn amau a fydd y Bil yn ei ffurf bresennol yn gallu sicrhau cefnogaeth i wireddu ei nodau gan gyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig partneriaid mewn iechyd. Awgrymodd Barnardo's Cymru fodel tair haen o wasanaethau ataliol. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae CLILC yn cefnogi'r angen i ailosod cydbwysedd y system i ddarparu gwasanaethau ymatebol. Er hynny, maen nhw'n dweud hyn: 'there is little evidence to suggest that a focus on early intervention and prevention alone, will achieve the desired rebalance, or the long term savings the Government envisage'. Mewn ymateb i'r cwestiwn a oes angen diffiniad o wasanaethau ataliol ar wyneb y Bil, dywedodd y Dirprwy Weinidog y gallai gwasanaethau o'r fath amrywio rhwng yr awdurdodau lleol a'i bod yn bwysig bod ganddyn nhw ryddid i ystyried anghenion lleol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion hefyd y daw cod ymarfer ynghylch gweithredu gerbron y Cynulliad o dan y 'weithdrefn gadarnhaol' ond na fydd hyn ar gael cyn cyfnodau 3 a 4 y Bil.

18. Hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein barn ni ei bod yn hanfodol rhoi mwy o fanylion i'r Aelodau am y math o wasanaethau a allai gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau ataliol cyn i'r Bil gyrraedd cyfnodau olaf y broses deddfu.

Asesu

19. Cafodd rhai pwyntiau cyffredinol eu gwneud am y broses asesu, gan gynnwys cwestiwn gan ADSS Cymru a oedd yn gofyn sut y caiff anghenion datblygu plant eu disgrifio mewn proses asesu i oedolion a phlant.

Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog ddweud pam nad oes eglurder ar wyneb y Bil ynghylch sut y bydd yr asesiadau gofal a chymorth sy'n angenrheidiol o dan Ran 3 o'r Bil yn cyd-fynd â phrosesau asesu eraill, er enghraifft yr asesiadau sy'n angenrheidiol o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) ac asesiadau i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno gwelliant mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaethau canlyniadol ac y byddai materion sy'n berthnasol i ddarpariaeth ynghylch gweithio ar y cyd yn cael eu gwneud mewn cod ymarfer.

20. Hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein pryderon nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn ddigon clir ynghylch sut mae'r asesiadau gofal a chymorth sy'n angenrheidiol o dan Ran 3 o'r Bil yn cyd-fynd ag unrhyw brosesau asesu eraill, megis y rhai ar gyfer iechyd meddwl ac addysg (neu'n eu disodli).

Gwrthod asesiad anghenion: adrannau 13 a 14

21. Mae Comisiynydd Plant Cymru'n mynegi pryderon dwys ynghylch adrannau 13 a 14 o'r Bil sy'n caniatáu 'plentyn yn gwrthod asesiad o'i anghenion' a 'rhiant yn gwrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn', gan ddweud mai dyma'r 'clearest breach of the best interest principle' yn y Bil. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd pam nad oedd yn fodlon ar y darpariaethau yn y Bil i'r awdurdodau lleol anwybyddu'r penderfyniad i wrthod o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft pan fo plentyn o dan 16 oed yn cael, neu'n wynebu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd y gallai'r penderfyniad i wrthod asesiad o'i anghenion dorri ar draws lles pennaf y plentyn. Mae NSPCC Cymru yn rhannu'r pryderon hyn ac yn galw am gynnwys amodau clir iawn yn y rheoliadau a'r canllawiau lle y caniateir i asesiad fynd yn ei flaen heb gydsyniad. Mae Barnardo's Cymru yn dweud bod y ddyletswydd yn parhau os bernir nad oes gan y plentyn alluedd neu os yw'r penderfyniad er lles pennaf y plentyn ac maen nhw'n cefnogi hynny. Gofynnodd yr Aelodau pam mae'r Bil yn caniatáu i'r awdurdod lleol anwybyddu dymuniadau person ifanc 16 a 17 oed pe bai asesiad er ei les gorau ond nad yw'n ymddangos bod y trothwy 'lles pennaf' hwn yn gymwys yn achos plant o dan 16 oed.

22. Hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein pryderon bod angen cryfhau adran 14 o'r Bil er mwyn sicrhau trothwyon mwy priodol o ran pa bryd y caiff awdurdod lleol anwybyddu penderfyniad rhiant i wrthod asesiad anghenion ac y dylai'r un trothwy fod yn gymwys yn achos plant hyd at 18 oed o ran pa bryd y caiff awdurdod lleol anwybyddu penderfyniad plentyn i wrthod asesiad o'i anghenion.

Cymhwysra

23. Mae sawl un o'r tystion a'r ymgynghoreion yn dadlau o blaid darparu'r 'fframwaith cymhwysra cenedlaethol' ar wyneb y Bil. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae ADSS Cymru yn dweud: 'the legislative framework is broad and lacking in detail; detailed changes will be set out later in regulations, guidance and codes of practice. This is even the case with issues such as eligibility criteria [...]'. Maen nhw hefyd yn mynegi pryder: 'there is too much scope for frequent amendments to secondary instruments, thereby undermining the stable direction which is needed'. Mae Cymdeithas Awtistig Genedlaethol Cymru yn mynegi pryder y bydd manylion y meini prawf cenedlaethol ynghylch cymhwysra yn cael eu pennu mewn rheoliadau ac nad ydyn nhw ar gael ar hyn o bryd er mwyn i sylwadau gael eu cynnig. Ceir rhagor o sylwadau isod ynghylch mater cymhwysra a'r ddarpariaeth bresennol yn Neddff Plant 1989 yn yr adran ar ddiwallu anghenion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthon ni y bydd yn gwneud datganiad ar y meini prawf cenedlaethol ynghylch cymhwysra cyn ei sesiwn tystiolaeth gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 6 Mehefin.

24. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw efallai'n bosibl nac yn ddymunol rhoi manylion llawn y meini prawf cenedlaethol ynghylch cymhwysra ar wyneb y Bil. Er hynny mae'r Pwyllgor o'r farn bod mater cymhwysra'n allweddol o ran a fydd y Bil yn cyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan ac mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud rhagor o waith craffu manwl ar y mater hwn yn sgil datganiad gan y Dirprwy Weinidog yn hyn o beth. Pan fydd y Dirprwy Weinidog yn gwneud datganiad, roedd yr Aelodau'n meddwl y byddai'n fuddiol gwneud hynny ar ffurf datganiad llafar er mwyn caniatáu i bob Aelod gael cyfle i graffu ymhellach ar y mater allweddol hwn a hynny yn y cyfnod cynharaf posibl yn ystod y broses ddeddfu.

Diwallu anghenion

25. Mynegodd sawl un o'r tystion a'r ymgynghoreion, gan gynnwys CLILC, bryder bod y Bil yn gwanhau ac o bosibl yn glastwreiddio'r ddarpariaeth bresennol i blant a phobl ifanc, ac yn benodol darpariaethau yn Neddf Plant 1989. Codwyd cwestiynau arwyddocaol ynghylch sut mae'r Bil yn cydgrynhoi ac yn cyd-fynd â dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Dywedodd ADSS Cymru wrthon ni fod y term 'plentyn mewn angen' yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn cael ei ddeall yn dda ac ar sail hynny fod yr asiantaethau'n gwybod pryd i ymyrryd. Dywedodd BASW Cymru wrth y Pwyllgor eu bod nhw'n ei chael yn anodd gwybod pa rannau o Ddeddf Plant 1989 fydd mewn grym ar ôl i'r Bil ddod yn ddeddf. Mynegodd Barnardo's Cymru bryder y gallai'r Bil drechu adran 17. Mae Plant yng Nghymru yn pwyntio at newid radicalaidd i 'bobl mewn angen' o'i gyferbynnu â 'phlant mewn angen' gan ddweud y dylid canolbwyntio ar blant a phobl ifanc eu hunain yn ogystal ag ar gymorth i deuluoedd. O ran plant sy'n cael eu hesgeuluso, dywedodd NSPCC Cymru ei bod yn ymddangos y gallai'r meini prawf ynghylch cymhwystra osod trothwyon ynglŷn ag ymyrryd a bod yna densiwn o hyd 'between children in need, children in need who require and are eligible for services, and children who could go on to become neglected'.

26. Mewn llythyr at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn fodlon na fyddai'r Bil yn amharu ar safle plant. Yn ei thystiolaeth ar lafar, eglurodd y Dirprwy Weinidog nad yw Llywodraeth Cymru'n bwrw ymlaen â chysyniad 'plentyn mewn angen' ac y bydd adran 17 a'r cyfan o Ran 3 o Ddeddf Plant 1989 yn cael eu diddymu. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y bydd y manylion hyn yn cael eu cyflwyno ar ffurf gwelliannau gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2 o'r broses ddeddfu. Mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud bod y Bil yn mynd ymhellach â'r hawlogaethau a geid o dan y ddeddfwriaeth flaenorol a hefyd fod yr hawl i gael asesiad a darpariaethau'r Bil ar ddiwallu anghenion yn gam ymlaen. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod diddymu adran 17 a rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 yn fater arwyddocaol ac yn gofyn pam nad yw'r eglurder hwn wedi'i roi yn gynt, o gofio ei fod mor arwyddocaol. Hoffem annog y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol i roi sylw penodol i'r mater hwn.

Codi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed

27. Ni chafwyd tystiolaeth o blaid y pwerau yn y Bil i godi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed. Dywedodd CLILC ac ADSS Cymru na ddylid codi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n agored i niwed, gan amlinellu bod pwerau o'r fath yn tanseilio'r hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni o ran atal yn gynnar a darparu gwybodaeth a chynghor, sef barn a rennir gan y mudiad Gweithredu

dros Blant. Mae gan Barnardo's Cymru amheuron difrifol ynghylch codi ffioedd am bobl ifanc.

28. Dywedodd y Dirprwy Weinidog nad pŵer newydd mo hwn.³ Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud na allai rag-weld unrhyw amgylchiadau lle câi ffioedd eu codi am bobl ifanc 16 a 17 oed am wasanaethau ac nad oedd hi am weld ffioedd yn cyfyngu ar fynediad i wasanaethau. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r rhesymeg a arweiniodd at greu pwerau i godi ffioedd am bobl ifanc 16 a 17 oed yn berthnasol mwyach. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn fodlon ystyried dileu'r pŵer. Rhoddodd y Pwyllgor groeso i hynny gan awgrymu y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a ddylai'r pŵer hwn gael ei ddileu o'r Bil. Nododd y Pwyllgor bryderon ehangach hefyd o ran pwerau i godi ffioedd am oedolion, er enghraifft y posibilrwydd o godi ar deuluoedd am wasanaethau gwybodaeth.

Gweithio mewn partneriaeth

29. Mae rhywfaint o dystiolaeth, er enghraifft gan Barnardo's Cymru, wedi awgrymu nad oes digon o eglurder yn y Bil am yr angen i bob asiantaeth weithio mewn partneriaeth i gyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant. Fe ddwedson nhw ei bod yn bosibl mai'r gwasanaethau cymdeithasol fyddai'r unig asiantaeth a fyddai'n atebol am gyflwyno gwasanaethau pe na bai unrhyw ddyletswyddau pellach i eraill yn cael eu mynegi'n fwy pendant ar wyneb y Bil. Mae pryderon wedi'u mynegi hefyd na fydd gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau fel y Byrddau Iechyd Lleol ac adrannau gwahanol yn yr awdurdodau lleol yn gweithio'n ymarferol os na ddarperir ar ei gyfer ar wyneb y Bil. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae CLILC yn dweud bod rhaid i'r Bil, er mwyn bod yn effeithiol yn ei nod o wella llesiant, ddynodi'r rôl benodol a ddisgwylir oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol. Mae pryderon am ddiffyg cyfrifoldeb aml-asiantaeth yn atseinio tystiolaeth a glywodd y Pwyllgor am wasanaethau i blant sy'n cael eu mabwysiadu. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a oes angen i gyfrifoldebau partneriaid heblaw'r gwasanaethau cymdeithasol fod yn fwy pendant ar wyneb y Bil er mwyn sicrhau bod cydgyfrifoldeb yn cael ei arddel gan bob asiantaeth a bod y posibilrwydd o anghydfod rhwng asiantaethau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion plant unigol yn cael ei leihau'n sylweddol.

³ Pwerau sydd i'w cael ar hyn o bryd yn *Neddf Plant 1989*

Pontio

30. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae ADSS Cymru am sicrhau 'that the Bill is clear about [...] responsibility for assessing needs and providing services for young people from children's services to adult services, between the ages of 14 to 25 years'. Maen nhw'n dweud bod llwyddiant cynlluniau a rhaglenni pontio o'r fath yn dibynnu'n llwyr ar gydweithredu rhwng gwasanaethau i blant a gwasanaethau i oedolion a bod angen ymagwedd aml-asiantaeth, integredig er mwyn sicrhau deilliannau clinigol, addysgol a chymdeithasol i bobl ifanc. Maen nhw'n argymhell y dylai'r Bil gymryd y materion hyn i ystyriaeth yn fwy pendant. Yn benodol o ran pobl ifanc anabl, cyfeiriodd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Bil yn 2012 at fwriad i fynd i'r afael â mater cyfnod pontio pobl ifanc anabl rhwng gwasanaethau cymdeithasol i blant a gwasanaethau i oedolion, er ein bod yn nodi nad yw'n ymddangos bod yna gyfeiriad at y materion hyn yn y Bil fel y cafodd ei osod.

Llais a rheolaeth y defnyddwyr

31. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i blant yn codi sawl mater ynghylch llais a rheolaeth y defnyddwyr, gyda rhai yn amau er enghraifft a oedd yna ddigon o bwyslais ar hawl plant a phobl ifanc i leisio barn yn ystod y broses asesu. Roedd y Comisiynydd Plant yn gofyn hefyd pam nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r angen am wybodaeth, cyngor a chymorth i ddiwallu anghenion plant fel eu bod yn deall y gofal a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw a'u teuluoedd ac i sicrhau cymorth priodol i gyrchu cyngor am eu gofal a'u cymorth.

Eiriolaeth

32. Mae sawl un o'r ymatebwyr yn dadlau o blaid cynnwys eiriolaeth annibynnol ar wyneb y Bil. Mae Scope Cymru'n mynegi siom nad yw'r Bil yn cynnwys cyfeiriadau penodol at eiriolaeth annibynnol. Mae Tros Gynnal Plant hefyd yn dweud bod diffyg cyfeiriad at 'a child or young person's rights to be supported by advocacy' yn wendid yn y Bil sy'n peri gofid. Mae'r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at ei adolygiad ef yn 2012 ar wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol (Lleisiau Coll) a danlinellodd y gwelliannau sylweddol y mae angen eu gwneud i hybu mynediad i gymorth i blant a phobl ifanc. Mae'n dweud nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn cyflawni'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni yn nhermau polisi. Yng nghyd-destun yr adolygiad cyfredol o Dribiwnlys Waterhouse, mae NSPCC Cymru'n dweud bod angen sicrhau y gall y genhedlaeth hon o blant sicrhau eiriolaeth. Mae NYAS Cymru'n pwysleisio bod angen i eiriolaeth gael ei darparu gan sefydliad y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yng nghyfeiriad y Comisiynydd at Fil Plant a Phobl Ifanc (yr Alban), a gafodd ei gyflwyno ar 17 Ebrill 2013 ac sy'n anelu at roi mynediad i'r holl blant a phobl ifanc hyd at 18 oed (ac wedyn os ydyn nhw'n dal yn yr ysgol) i berson sydd wedi'i enwi ac at sicrhau bod yr holl wasanaethau perthnasol yn cydweithredu â'r person sydd wedi'i enwi i sicrhau mai llesiant y plentyn sy'n fwyaf blaenllaw yn eu gweithredoedd. Cyhoeddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y trydydd Cynulliad dri adroddiad ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru gan wneud cyfanswm o 30 o argymhellion ynghylch darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 2008 a 2011. Ym mis Ebrill 2012, ysgrifennodd y Pwyllgor presennol at y Dirprwy Weinidog i fynegi pryderon bod adroddiad y Comisiynydd 'Lleisiau Coll' yn codi rhagor o amheuan a oedd digon o gynnydd yn cael ei wneud i ddarparu cymorth eiriolaeth i blant yng Nghymru sy'n agored i niwed.

33. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried a ddylai'r gofyniad bod rhaid darparu gwasanaethau eiriolaeth

annibynnol gael ei fynegi'n bendant ar wyneb y Bil ac mae'n croesawu
tystiolaeth y Dirprwy Weinidog ei bod yn ystyried gwelliant gan y Llywodraeth
yn hyn o beth.

Diogelu plant

Byrddau Diogelu Lleol

34. O ran diogelu, mynegodd sawl un o'r tystion a'r ymgynghoreion bryderon a doedden nhw ddim o blaid y darpariaethau o dan adran 117 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyfuno byrddau diogelu oedolion a byrddau diogelu plant yn eu gwaith ar lefel yr awdurdodau lleol. Mae CLILC yn amau'r rhesymeg y tu ôl i ymagwedd o'r fath ac yn gofyn hefyd pam y mae darpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn y Bil. Cyflwynodd pum LSCB dystiolaeth ar y cyd y byddai cyfuno byrddau i oedolion a byrddau i blant yn arwain at gollir ffocws naill ai ar blant a phobl ifanc neu ar oedolion sy'n agored i niwed. Mynegodd NSPCC Cymru bryder mai agenda'r oedolion fyddai'n cael y llaw drechaf. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyfuno byrddau oedolion a byrddau plant. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog hefyd y byddai rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi bryd hynny, pe bai'n dod i'r amlwg y byddai cyfuno byrddau oedolion a byrddau plant yn fanteisiol. Mae'r Pwyllgor yn nodi y byddai pwerau i gyfuno byrddau plant a byrddau oedolion ar y lefel leol yn gofyn am waith craffu gan y Cynulliad o dan y weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y fframwaith statudol i blant yn wahanol i'r fframwaith ar gyfer diogelu oedolion ac mae'n tynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y pryderon rydyn ni wedi'u clywed ynghylch pwerau i gyfuno byrddau lleol.

35. Mae NSPCC Cymru ac eraill yn cyfeirio at yr Ymchwiliad i Fyrddau leol Diogelu Plant yng Nghymru gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn 2010 a argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori, ar fyrder, ar fformiwla ariannu genedlaethol ar gyfer LSCBs wedi'i seilio ar gyfraniadau canrannol. Yn ôl NSPCC Cymru, 'despite the Deputy Minister accepting this recommendation this has not yet been taken forward' ac maen nhw'n dadlau o blaid cryfhau adran 115 fel bod rhaid i bob partner yn y Byrddau Diogelu wneud taliadau tuag at y gwariant a ysgwyddir a bod cyfraniadau'r partneriaid yn cael eu sicrhau drwy fformiwla ariannu.

Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

36. O ran y Bwrdd Cenedlaethol, mae'r Comisiynydd Plant yn dweud ei fod wedi'i argyhoeddi o hyd fod yna ddadleuon cryf dros sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar wahân ar gyfer plant. Mae'n gofidio y bydd y cyd-fwrdd arfaethedig yn cael ei lethu gan faterion syn ymwneud â'r fframwaith statudol newydd i oedolion sy'n agored i niwed.

Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya

A yw Rhan 6 o'r Bil yn ddiweddariad priodol ar y dyletswyddau presennol ac a yw'n cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol yn briodol

37. Mae'r Pwyllgor yn nodi na chafodd Rhan 6 o'r Bil ei chynnwys yn y Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru a gafwyd cyn y Bil. Mewn llawer o achosion mae'r adrannau yn Rhan 6 o'r Bil yn adlewyrchu dyletswyddau presennol, a fydd y Bil ddim yn sefyll ar ei ben ei hun ac ar wahân i statudau eraill. Mae'r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at ddatganiad Prif Weinidog Cymru ar y rhaglen ddeddfu ym mis Gorffennaf 2012, lle y dywedodd y byddai'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol yn fodd i 'atgyfnerthu ein hagwedd tuag at gefnogi plant sy'n derbyn gofal'.⁴ Mae'r Comisiynydd yn dweud nad yw'r Bil yn gwneud fawr ddim mewn gwirionedd i newid y ddeddfwriaeth bresennol o ran plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae Barnardo's Cymru'n dweud nad yw'r Bil yn rhoi sylw i rai o'r diffygion presennol yn y ddeddfwriaeth ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal. Mae'r Dr Julie Doughty, y Dr Sally Holland a'r Dr Heather Ottoway o Brifysgol Caerdydd yn dweud bod yna botensial ar gyfer 'great confusion amongst legal and social work agencies' a 'whilst we support new legislation in Wales that provides for improvement in services, replicating and re-numbering existing legislation seems to us to introduce unnecessary complication'. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod Rhan 6 o'r Bil yn dyblygu darpariaethau presennol ond chyfeiriodd hi ddim at y nod a ddatganwyd gan y Prif Weinidog, sef atgyfnerthu'r ymagwedd.

38. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil yn diweddarau ac yn egluro rhwymedigaethau a dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai cydgrynhoed rhannol yn unig ar y ddeddfwriaeth bresennol yw Rhan 6 ac mae'n tynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at ein pryderon nad yw'r Bil yn egluro'r ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya.

Adrannau 88-94 ynghylch ailenwi categorïau o bobl ifanc sy'n ymadael â gofal

39. Mae'r BAAF hefyd yn galw am ail-lunio adrannau 89-96 ynghylch cymorth i'r rhai sy'n ymadael â gofal. Mae'r Dr Doughty, y Dr Holland a'r Dr Ottoway hefyd yn dadlau o blaid newid ac yn galw am derminoleg fwy addas. Maen nhw'n mynegi pryder bod defnyddio categorïau 1-5 yn debyg i

⁴ Cofnod y Trafodion, [Diweddariad ar Raglen Ddeddfu Llywodraeth Cymru 2011-16](#), 17 Gorffennaf 2012

derminoleg y gwasanaeth carchardai. Ategwyd y farn hon gan CLILC ac ADSS Cymru a ddywedodd nad oedd y darpariaethau'n symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol a'i bod yn defnyddio terminoleg ddifriol iawn.

40. Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y farn hon ac yn gofyn iddo ystyried a ddylai adrannau 88-94 o'r Bil ddefnyddio iaith wahanol ynghylch 'categorioid' hawlogaethau'r rhai sy'n ymadael â gofal.

Maethu i fabwysiadu

41. Yn yr adroddiad ar yr Ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu, rhoddodd y Pwyllgor bwyslais mawr ar yr angen i sicrhau sefydlogrwydd yn gynt i blant, gan argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r dull cynllunio cyfamserol. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, mae BAAF Cymru'n dweud nad yw darpariaethau presennol y Bil yn darparu 'any of the outcomes sought by the Welsh Government in seeking early permanence placements for children' a bod maethu i fabwysiadu yn creu ystod o anawsterau heb y manteision y gall cynllunio cyfamserol eu cynnig. Maen nhw'n mynd ymlaen i ddweud hyn: 'any perceived benefit of an earlier adoptive placement for children under this clause is far outweighed by the many factors mitigating against it. BAAF Cymru is an advocate of the concurrent planning model of placement, seeing significant benefits to the children for whom this type of placement is an option'. Mynegwyd pryderon hefyd gan Adoption UK Cymru, Cymdeithas Plant Dewi Sant a Barnardo's Cymru ynghylch y ffocws cul ar faethu i fabwysiadu yn y Bil. Mae BAAF Cymru'n cynnig y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n datgan bod yr awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ystyried, fel rhan o gynllun sefydlogrwydd i blant, leoliadau gyda gofalwyr a allai ddod yn ofalwyr parhaol i'r plentyn os yw hynny er lles pennaf y plentyn.

42. Yng ngoleuni gwaith craffu helaeth y Pwyllgor hwn ar faterion o'r fath yn ystod ein hymchwiliad ar wasanaethau mabwysiadu, rydyn ni'n cefnogi'n gryf yr angen i ddiwygio'r Bil yn hyn o beth ac yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i adolygu'r darpariaethau presennol yn y Bil yn hyn o beth. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a nodi hefyd dystiolaeth a chasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012 ynghylch yr angen i sicrhau sefydlogrwydd i blant yn gynt.

Mabwysiadu

Trefniadau gweithio ar y cyd

43. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y byddai'r darpariaethau ynghylch gweithio ar y cyd yn adran 151 o'r Bil yn hwyluso diwygiadau yn y gwasanaethau mabwysiadu. Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos bod gan ddarpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd (sydd ar hyn o bryd yn y Cyfnod Pwyllgora yn San Steffan) amcanion tebyg i Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) o ran diwygio gwasanaethau mabwysiadu ond bod ynddo bwerau ymyrryd cryfach yn ôl pob golwg.⁵

44. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad manwl ar ddarparu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru, gan gymryd tystiolaeth gan ystod eang o dystion gan gynnwys tystiolaeth unionyrchol neu dystiolaeth a gasglwyd ymlaen llaw gan o leiaf 60 o deuluoedd mabwysiadol ac yn unionyrchol hefyd gan bobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu. Yr argymhelliad cyntaf yn adroddiad y Pwyllgor ar fabwysiadu oedd hyn:

“Dylid cryfhau rôl cyflenwi gwasanaeth unionyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghorol Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Dylai fod gan y Gwasanaeth rôl gyflenwi ganolog a dylai gyflogi staff i weithio ar amrywiaeth o drefniadau mabwysiadu. Ni ddylai fod 'yn eiddo i'r awdurdodau lleol' fel y nodir yn y cynigion presennol. Dylai'r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd amlasiantaethol, ac yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.”

45. Roedd y Dirprwy Weinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn o ran egwyddor ond dywedodd ei bod yn bwriadu ystyried y model gweithredol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan ADSS Cymru a CLILC. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog gopi o'r model hwn i'r Pwyllgor i'w helpu i graffu ar y Bil ac mewn tystiolaeth lafar roedd y dystion yn optimistig y gallai'r model sicrhau newid. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod gwaith rhagorol wedi'i wneud gan ADSS Cymru a CLILC i ddatblygu'r model.

⁵ Tŷ'r Cyffredin, [Children and Families Bill : Explanatory Notes](#), [wedi'i gyrchu 15 Ebrill 2013]

46. Ceisiodd y Pwyllgor gael gwybod a fyddai'r pwerau yn y Bil yn cyflawni'r hyn y mae ei angen er mwyn diwygio'r gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru ac a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud i wella cysondeb y gwasanaethau mabwysiadu. Ceisiodd y Pwyllgor edrych hefyd ar fanteision a gwendidau posibl tynnu'r cyfrifoldeb dros rai gwasanaethau mabwysiadu (megis recriwtio a hyfforddi) oddi ar yr awdurdodau lleol a'u rhoi i wasanaeth annibynnol canolog. Holodd yr Aelodau y tystion hefyd a oedd y darpariaethau ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnig digon o bwerau i Weinidogion Cymru i ymyrryd pe na bai'r model cyflawni a gynigir gan CLILC ac ADSS yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol yn y gwasanaethau mabwysiadu dros amser.

47. Dadleuai cynrychiolwyr y sector gwirfoddol dros gyfeiriad mwy pendant at y sector gwirfoddol yn adran 151 o'r Bil. O ran y model cyflawni, roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu mor bwysig oedd y trefniadau llywodraethu. Roedd rhai o'r Aelodau'n amau patrwm y pum menter gydweithredol ranbarthol ar gyfer mabwysiadu yn y model a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â datblygiadau rhanbarthol eraill fel y consortia addysg, y mentrau cydweithredol ar gyfer gwelliannau yn y gwasanaethau cymdeithasol, a'r Byrddau Iechyd Lleol.

48. Mae angen i adran 151 o'r Bil fynd ymhellach na'r drafft presennol i ddarparu'r dulliau diogelu angenrheidiol rhag ofn na fyddai'r model cyflwyno gwasanaethau arfaethedig i'r gwasanaethau mabwysiadu cenedlaethol yn cyflawni'r 'newid sylweddol' y mae'n Pwyllgor ni wedi galw amdano o'r blaen. Seilir y sylwadau hyn ar ein gwaith craffu helaeth yn ddiweddar ar wasanaethau mabwysiadu ac ar ein gwaith craffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a fu'n fodd inni ystyried datblygiadau mwy diweddar, Mae angen hefyd i adran 151 o'r Bil gyfeirio'n bendant at y sector gwirfoddol. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a nodi hefyd dystiolaeth a chasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

Cymorth ar ôl mabwysiadu

49. Does dim adrannau yn y Bil sy'n ymwneud â chymorth ar ôl mabwysiadu, yn wahanol felly i'r Bil Plant a Theuluoedd sy'n destun gwaith craffu ar hyn o bryd yn Senedd San Steffan. Mae'r Dr Doughty, y Dr Holland a'r Dr Ottoway o Brifysgol Caerdydd yn dweud bod y Bil yn gyfle i gryfhau hawliau cyfreithiol i gael cymorth ar ôl mabwysiadu yn sgil asesiad o anghenion. Mae BAAF Cymru'n dweud eu bod nhw'n siomedig iawn nad oes sôn am wasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu. Ategwyd y farn hon gan Adoption UK Cymru, Barnardo's Cymru a Chymdeithas Plant Dewi Sant.

50. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor yn sgil yr Ymchwiliad ar Wasanaethau Mabwysiadu ddau argymhelliad yn galw am newid yn y ddeddfwriaeth ar hawlogaethau i gael cymorth ar ôl mabwysiadu, a chafodd y ddau eu derbyn o ran egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad i Ymchwiliad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddfwriaeth Mabwysiadu. Nodwn fod adroddiad Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 6 Mawrth 2013⁶ yn argymhell y dylai cymorth ar ôl mabwysiadu gael ei wneud yn ofyniad cyfreithiol. Ar hyn o bryd mae'r awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i asesu anghenion teuluoedd mabwysiadol o ran cymorth ond nid o dan ddyletswydd gyfreithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Ar sail y dystiolaeth helaeth a glywsom yn ystod yr ymchwiliad ar wasanaethau mabwysiadu, mae'r Pwyllgor yn gryf o'r farn y dylai'r ddyletswydd i ddarparu cymorth ar ôl mabwysiadu gael ei chynnwys yn y Bil. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen i gostio unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn hyn o beth yn ddigonol. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n barn yn hyn o beth a'r dystiolaeth ynghylch cymorth ar ôl mabwysiadu yng nghasgliadau'r adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Wasanaethau Mabwysiadu a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

⁶ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddeddfwriaeth Mabwysiadu, [Report](#), 6 Mawrth 2013

Plant anabl

51. Mynegodd amryw o sefydliadau bryderon am sut y bydd y Bil yn effeithio ar blant anabl, gan gyfeirio'n benodol at sut mae anabledd yn cael ei ddiffinio yn y Bil a hefyd at ddiddymu adran 17 o Ddeddf Plant 1989 a'r argraff felly y bydd statws penodol presennol plant anabl fel 'plant mewn angen' yn cael ei ddileu. Awgrymodd rhywfaint o'r dystiolaeth hefyd fod y Bil yn ategu model meddygol anabledd yn hytrach na'r model cymdeithasol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod wrthi'n ystyried sut i symud ymlaen yn hyn o beth.

Diffiniad

52. Mae'r Bil yn mabwysiadu'r diffiniad o "anabl" sy'n cael ei roi o dan adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O dan adran 3(6) caiff Gweinidogion Cymru ragnodi pa gategoriâu o bobl a all gael ac na all gael eu cynnwys o dan y diffiniad o 'anabl'. Yn ôl Scope Cymru, 'relying solely on the definition of disabled contained in the Equality Act 2010 could mean that some disabled children are put at a disadvantage'. Maen nhw wedyn yn dweud: 'although the definition of 'disability' contained in section 17(11) of the Children Act 1989 is out-dated and is focused on a medical model of disability, it nevertheless has a broad reach that requires that any child who meets that definition is deemed to be a child in need'. Maen nhw'n argymhell y dylai'r gofynion hyn gael eu cadw ac y dylid archwilio'r ddeddfwriaeth yn ofalus i sicrhau nad yw'r hawlogaethau presennol ynghylch asesiadau a gwasanaethau'n cael eu gwanhau. Mae Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru'n dweud bod angen i'r Bil gyfeirio at Ddeddf Personau Cronig Sâl ac Anabl 1970 fel y mae'n cyfeirio at ddarparu offer arbenigol yng nghartref person. Maen nhw hefyd am gael sicrwydd y bydd plant byddar yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o 'anabl' wrth i reoliadau gael eu datblygu. O'i holi, dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod wrthi'n pwysu a mesur sut i symud ymlaen ar y mater hwn.

Statws plant anabl yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989

53. Mae Grŵp Cynghori'r Bil yn dweud: 'the Bill draft will mean that the specific definition of a disabled child provided under the Children's Act 1989 17(11) will in theory be replaced by the more general definition of disability contained in this Bill'. Maen nhw'n dweud y gallai'r Bil fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd gael ei weld fel petai'n glastwreiddio hawliau plant anabl i gael asesiadau a gwasanaethau. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hatseinio gan Gymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion. Mae Plant yng Nghymru'n

pryderu y gallai'r diffiniad o 'pobl mewn angen' lastwreiddio hawliau plant anabl sydd â hawl i gael gwasanaethau ar hyn o bryd o dan adran 17.

54. Mae'r Comisiynydd Plant yn dweud bod hepgor darpariaeth mor sylfaenol (sef y cyfeiriad at blant anabl yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989) sy'n cael ei chynnig gan y statud ar hyn o bryd, heb ddulliau diogelu digonol ar wyneb y Bil i warchod rhag i gam yn ôl gael ei gymryd, ynddo'i hun yn sail dros amau dilysrwydd y Bil yng nghyd-destun hawliau plant. Mae NSPCC Cymru'n dweud nad yw'n glir sut y bydd y diffiniad hwn o 'anabl' a darpariaethau yn y Bil hwn yn cydadweithio â'r diffiniad a'r darpariaethau yn adran 17 o Ddeddf Plant 1989 sy'n dweud bod unrhyw blentyn anabl yn blentyn mewn angen, ac y dylai wedyn gael gwasanaethau sy'n briodol i'w anghenion. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau bod adran 17 yn cael ei diddymu ac felly na fydd y Bil yn cynnwys cyfeiriadau pendant at unrhyw 'statws arbennig' i blant anabl, er y gallai hynny gael ei ddarparu mewn rheoliadau.

55. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n pryderon o ran sut mae'r Bil yn darparu ar gyfer diffiniad o blant anabl a hefyd yr effaith bosibl ar blant anabl pe bai adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn cael ei diddymu. Rydyn ni hefyd yn nodi ei bod yn agored i Weinidogion Cymru, drwy is-ddeddfwriaeth, dynnu pobl benodol o'r diffiniad o "anabledd" a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddem yn croesawu rhagor o waith craffu ar y materion pwysig hyn.

Cyllid

56. Mae gan CLILC amheumon sylfaenol ynghylch y rhagdybiaeth yn y Memorandwm Esboniadol ac a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd y Bil yn niwtral o ran costau. Maen nhw'n dweud bod cydweithwyr iddyn nhw ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector ar sector annibynnol yn ategu'r farn hon, ac yn rhannu barn grŵp cynghori'r trydydd sector mai amcanestyniadau ynglŷn â chostau fydd y prif rwystr a fydd yn atal y gweithredu. Mae ADSS Cymru'n dweud bod yna bwysau ariannol ar draws pob grŵp o ddefnyddwyr gwasanaethau ond ei bod yn ymddangos bod y sefyllfa mewn gwasanaethau i blant ac i bobl ag anableddau dysgu yn arbennig o ddwys mewn meysydd lle y gallai'r Bil ysgogi mwy o wariant. Mae Plant yng Nghymru hefyd yn amau'n sylfaenol na fydd y Bil yn niwtral o ran costau. Mae NSPCC Cymru'n dweud mai'r rhwystr amlycaf i atal y Bil rhag cael ei roi ar waith yw adnoddau ac arian. Maen nhw'n dweud hyn: 'significant upfront investment will be required to enable the rebalancing of services which needs to take place'. Maen nhw'n mynegi pryder am oblygiadau ariannol sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol a hefyd am gost cyflwyno'r gwasanaethau ataliol angenrheidiol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y disgwyliad y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i raddau helaeth heb adnoddau ychwanegol, gan amlinellu bod yna £3M i roi'r Bil ar waith; ac £11M o gyllid ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CLILC at hyfforddiant; a £50,000 o gostau cychwynol i'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol.

57. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'n pryderon ynghylch a all y Bil fod yn niwtral o ran costau neu beidio. Rydyn ni'n croesawu rhagor o waith craffu ganddyn nhw ar y mater hwn ac yn enwedig felly y modd y mae'n effeithio ar wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Is-ddeddfwriaeth

58. Mae nifer y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn arwyddocaol. Nododd sawl un o'r rhanddeiliaid mor anodd yw asesu rhagoriaethau'r Bil gan fod y manylion terfynol i'w pennu eto mewn is-ddeddfwriaeth ddilynol, a allai ddiwygio rhai o ddarpariaethau'r Bil mewn modd arwyddocaol.

59. Er enghraifft, mae NSPCC Cymru yn dweud hyn: 'there is a significant chance that the practical impact of (the Bill's) provisions may be significantly altered in the future by subordinate legislation'. Maen nhw hefyd yn dweud eu bod yn pryderu'n fawr hefyd y bydd y rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth yn dod o dan y weithdrefn negyddol ac na fydd yna ragor o waith craffu arni felly. Yn ôl y modd y mae'r Bil wedi'i gyflwyno, meddai Barnardo's Cymru, mae angen llawer iawn o ffydd o ran y gweithredu. Maen nhw'n galw am ragor o ofynion pendant ar wyneb y Bil ac am ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn amlach.

60. Rydyn ni'n nodi y bydd materion sy'n ymwneud â phwerau is-ddeddfwriaeth yn cael eu hamlygu yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y Bil. Rydyn ni'n gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodi'r pryder a godwyd gan rai o'r elusennau i blant fod y rhan fwyaf o'r is-ddeddfwriaeth yn dod o dan y weithdrefn negyddol ac ystyried a fyddai'n fwy priodol defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol neu, mewn rhai achosion, y weithdrefn uwchgadarnhaol.

Atodiad A: Rhestr o dystion a roddodd dystiolaeth ar lafar

17 Ebrill 2013

Cynghrair 'Sdim Curo Plant!
NSPCC Cymru
Barnardo's Cymru

25 Ebrill 2013

Comisiynydd Plant Cymru
BAAF Cymru
Adoption UK
Barnardo's Cymru
Cymdeithas Plant Dewi Sant
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol

Atodiad B: Materion ychwanegol sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a amlygwyd mewn ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Yn ychwanegol at y materion hynny y mae sefydliadau wedi tynnu sylw atyn nhw yn yr adroddiad, roedd y dystiolaeth ychwanegol a oedd yn berthnasol i blant a phobl ifanc yn cynnwys y pwyntiau a ganlyn. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac nid yw mewn trefn benodol.

- Mae BAAF Cymru'n dweud y dylai adrannau 79 ac 80 ynghylch cysylltiadau â brodyr a chwiorydd gael eu diwygio. Maen nhw hefyd yn codi materion sy'n cynnwys hygludedd asesiadau a hefyd yr angen am gymorth i frodyr a chwiorydd sy'n oedolion ifanc 18-20 oed os ydyn nhw'n gofalu am frawd neu chwaer sydd hefyd yn blentyn.
- Mae'r Dr Julie Doughty, y Dr Sally Holland, a'r Dr Heather Ottoway o Brifysgol Caerdydd yn argymhell cryfhau adrannau 79 ac 80 o'r Bil o ran cysylltiadau â brodyr a chwiorydd. Maen nhw'n cyfeirio hefyd at yr angen i ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch rheoliadau a fydd yn codi o'r Bil; cyflwyno rheoliadau i ddileu 'unnecessary bureaucratic demands on practitioners'; yn cyfeirio at adrannau 12 a 19 o'r Bil o ran darpariaethau newydd sy'n caniatáu meini prawf ynghylch cymhwysra wrth asesu plant mewn angen.
- Mae Diverse Cymru'n gwneud ystod eang o bwyntiau penodol gan gynnwys argymhell: 'that the duty to take account of and promote a child's wellbeing in part 6 of the Bill to having regard to a child's "religion, faith or belief, racial origin, cultural heritage, linguistic background, sexual orientation, gender and gender identity, and disability'. O ran plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal maen nhw'n codi materion sy'n cynnwys hygludedd cynlluniau gofal, rheoli ac adolygu achosion, addasrwydd llety; a dewis ymwelwyr annibynnol. Maen nhw hefyd yn dweud y dylai plant LGBT gael eu cynnwys yn yr ystyriaethau cydraddoldeb ynghylch plant sy'n derbyn gofal.
- Mae Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain yng Nghymru yn dweud bod angen diwygio geiriad adran 12 ynghylch dyletswydd i asesu anghenion plentyn o ran gofal a chymorth.
- Mae Panel Dinasyddion dros Wasanaethau Cymdeithasol yn gwneud nifer o bwyntiau manwl gan gynnwys y dylai barn plant a phobl ifanc

gael ei chymryd i ystyriaeth o ran adran 4(4)(a) yn Rhan 2 o'r Bil ac o ran adolygiadau o dan Ran 6. Maen nhw'n awgrymu gwaith craffu cryfach ar gartrefi gofal i blant ac oedolion drwy gyfrwng arolygiadau ac archwiliadau dirybudd.

- Mae Cymdeithas Awtistig Genedlaethol Cymru'n croesawu'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod ar yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd i asesu a diwallu anghenion y boblogaeth leol gan ddweud mai'r unig ffordd i gyflawni hyn yn effeithiol yn achos pobl sydd ag awtistiaeth yw drwy ddata manwl-gywir am awtistiaeth. Mae'r NASC yn mynegi pryder y bydd manylion y meini prawf cenedlaethol ynglŷn â chymhwystra'n cael eu pennu mewn rheoliadau ac nad ydyn nhw ar gael ar hyn o bryd er mwyn i sylwadau gael eu cynnig. Mae'r NASC hefyd yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau ataliol; taliadau uniongyrchol; a chynlluniau gofal.
- O ran gwasanaethau i blant, mae Fforwm Gofal Cymru'n dweud hyn: 'the requirement to identify the future need and type of services can only be achieved by commissioners talking with providers in order to be able to consider how we can improve outcomes for children and young people by exploring the potential to do things differently'. Maen nhw hefyd yn dweud eu bod am weld cydnabyddiaeth gan gomisiynwyr na ddylai cartrefi plant gael eu gweld fel y dewis olaf ond hefyd mewn rhai achosion fel ymyriad cynnar priodol.
- Mae Ymchwil ac Addysg Weithredol Gristnogol (CARE) yn tanlinellu nifer o faterion, yn ymwneud yn bennaf â phlant sy'n cael eu masnachu ac a allai ddod yn blant sy'n derbyn gofal, gan ddweud yr hoffen nhw weld cyfeiriad penodol at blant sy'n cael eu masnachu yn adran 60 naill ai fel ychwanegiad i adran 60(1)(b) neu fel is-adran ar wahân. Mae CARE yn argymhell cynnwys 'a Guardian or Representative for Trafficked Children' yn y Bil. Maen nhw hefyd yn gwneud pwyntiau ynghylch helpu teuluoedd i fagu plant a diffinio llesiant yn achos plant.
- Mae NSPCC Cymru'n gwneud rhai pwyntiau penodol ynghylch Rhan 6 o'r Bil: am adran 59 ac adran 62. Maen nhw hefyd yn codi materion am effaith ad-drefnu a phwysigrwydd deall yr effaith ar bartneriaid rhanbarthol a lleol.
- Mae Barnardo's Cymru'n dweud y dylai adran 86 gynnwys gofyniad mwy penodol bod rhaid cynnwys plant a phobl ifanc mewn adolygiadau o achosion.
- Mae Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru'n gwneud nifer o bwyntiau manwl gan gynnwys y posibilrwydd y caiff arbenigeddau'r

gwasanaethau eu glastwreiddio; y dylai plant byddar gael eu nodi'n glir yn y meini prawf ar gymhwysra; eglurhad ar ba grwpiau o blant a gynhwysir yn y gofrestr o blant sydd â nam corfforol; ac yn mynegi siom bod cynigion ynghylch penodi cynghorwyr personol gan yr awdurdodau lleol ar gyfer pobl ifanc anabl sy'n cyrraedd y cyfnod pontio fel petaen nhw wedi'u gollwng.

- Mae Gweithredu dros Blant yn gwneud amryw o bwyntiau gan gynnwys yr angen i gysoni agenda'r Bil â'r agenda yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig; cydlafurio; cynlluniau a gweithredu hirdymor; rôl y trydydd sector; a'u barn ar gyd-gynhyrchu.
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda: 'Adopting a common approach to safeguarding (for adults and children) may dilute rather than strengthen the process'.
- Byrddau Lleol Diogelu Plant (LSCBs) y De-ddwyrain: Yn pryderu am ranbartholi'r LSCBs er eu bod yn y sefyllfa honno eu hunain. Maen nhw'n dweud mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod hyn yn gwella effeithiolrwydd y byrddau. Yn pryderu hefyd am gyfuno byrddau i oedolion a byrddau i blant gan y bydd hynny'n colli'r ffocws ar naill ai plant a phobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed.
- Cyngor Sir y Fflint: 'support the Bill's provisions, which assist the creation of a national adoption service for Wales' ond 'share the Welsh Local Government Association's concerns that these provisions may require local authorities to collaborate at a national level'.
- Cyngor Caerdydd: yn dweud hyn: 'there is a political commitment to establishing a national adoption support service but there is concern that powers set out in the Bill might be used to require Local Authorities to collaborate at a national level. ADSS Cymru has developed an operational model that takes into account and builds on regional collaborations that already exist across Wales as well as making provision for a national gateway';
- Sefydliadau partner (Anabledd Cymru): Cyfeirio at CCUHP gan ddweud mai consensws y sefydliadau partner yw y bydd cyflwyno'r Bil yn symleiddio'r ddeddfwriaeth ac yn caniatáu nifer o ddatblygiadau cadarnhaol, megis integreiddio plant.
- Cynghrair 'Sdim Curo Plant!: Mae CAU yn gynghrair o fudiadau ac unigolion sy'n ymgrychu o blaid diwygio'r gyfraith 'to give children the same protection from assaults as adults'. Mae grŵp llywio CAU yn cynnwys Gweithredu dros Blant; Barnardo's Cymru; Plant yng

Nghymru; NSPCC; ac Achub y Plant. Mae CAU wedi rhoi tystiolaeth fanwl ar y mater hwn gan nodi dadleuon dros gynnwys darpariaeth yn ymwneud â'r mater hwn yn y Bil.

- Dinas a Sir Abertawe: wedi cynnal ymgynghoriad â staff y rheng flaen a oedd yn cynnwys barn gadarnhaol am welliannau mewn diogelu gyda phwerau newydd i ddiogelu oedolion, a chysoni'r fframwaith diogelu oedolion â diogelu plant. Mynegwyd pryderon am lastwreiddio hawliau plant/diogelu plant yng nghyd-destun persbectif teuluol.
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Yn dweud ei bod yn bwysig cadw rôl y Prif Gyfarwyddwr Plant a bod cyfeiriadau at ddiwygio adran 25 o'r Ddeddf Plant fel pe bai'n parhau â'r ffocws hwn, sy'n cael ei groesawu. O ran Rhan 6 maen nhw hefyd yn dadlau o blaid cysoni â fframweithiau cyfreithiol eraill megis Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Dileu'r amddiffyniad cosb resymol

Dyma'r 20 ymgynghorai a gyflwynodd dystiolaeth yn galw am ddileu'r amddiffyniad cosb resymol:

Adoption UK

Ambiwylans Sant Ioan

Archegob Cymru

Arsyllfa Hawliau Dynol Cymru

Barnardo's Cymru

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion

Comisiynydd Plant Cymru

Cynghrair 'Sdim Curo Plant!

Cymdeithas Gwarchodwyr Plant Cymru

Cymorth i Ddioddefwyr

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cymru

Menter Fyd-eang Atal Pob Cosb Gorfforol i Blant

NSPCC Cymru

Plant yng Nghymru

Refuge

Respect

Rhwydwaith Di-drais Eglwysi Cymru

SNAP Cymru

UNICEF UK

Zero Tolerance